

Nodiadau Fforwm Defnyddwyr Ogwen

3ydd Mai 2017 4.30 y.h

Presennol

Emyr Williams (cadeirydd)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
John Roberts	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Gwyn Thomas	Blaen y Nant
Edward Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Carys Dafydd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Arwel Johnston	Tenant
Edwina Johnston	Tenant
Rhys Thomas	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Andy Harbach	Tîm Achub Mynydd Ogwen
Dewi Roberts	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Mark Roberts	Defnyddiwr y safle
Naomi Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Catrin Roberts	Glan Llugwy
Hywel Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Catrin Williams	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau

Iwan Jones; Jeroen Verbeek; Saskia Wardeinier; Mal Creasy; Jon Cawley; Alan Pritchard; Godfrey Northam; Dewi Davies; Paula Roberts; Guto Roberts

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd a gofynnodd iddynt gyflwyno eu hunain. Dywedodd ei fod am atgoffa pawb pam y cafodd y Fforwm ei sefydlu sef i wella'r profiad mae pobl yn ei gael o ddefnyddio'r adnodd newydd yr oedd yr Awdurdod wedi buddsoddi ynddo. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn sicr bod y buddsoddiad wnaed yn yr adeilad wedi sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwell profiad a gwasanaeth.

2. Nodiadau'r cyfarfod diwethaf.

Cywirdeb a materion yn codi

a. Problem traffig - roedd cyfarfod safle wedi cael ei gynnal gydag Iolo Tegid. Yn ôl Arwel Johnson roedd amryw o wahanol 'senarios' wedi eu trafod, megis lleihau'r cyflymder i 40 milltir yr awr, llinellau melyn. Dywedodd ei fod ef o'r farn mae arian oedd wrth wraidd yr anfodlonrwydd i wneud dim ynghylch y sefyllfa.

Roedd pawb yn cytuno nad oedd unrhyw gynnydd wedi ei wneud ynghylch y sefyllfa er danfon llythyrau ar ddau weinidog a chyswllt cyson gydag Iolo Tegid.

Dywedodd Carys Dafydd ei fod wedi dweud mewn ebost y byddai mwy o gyfiawnhad i gael cyfyngiad ar y parcio ar y ffordd pe byddai'n bosibl cael mwy o le i barcio yn y cyffiniau. Roedd cytundeb na ddylid disgwyl i gael mwy o le i barcio cyn mynd ymlaen i roi rhyw fath o gyfyngiad ar y traffig ar y briffordd.

Gofynnodd Gwyn Thomas be oedd wedi digwydd parthed y syniad i greu llwybr yr ochr mewn i'r wal - fyddai'n fwy diogel na gorfod camu allan i'r ffordd i osgoi'r ceir. **Cytunodd Dewi Roberts i holi Guto Roberts os oedd wedi cael amcan bris gan gontractwr er mwyn cael syniad o'r gost.**

3. Diweddariad ar weithgareddau diweddar yn Ogwen yn absenoldeb

Guto Roberts darllenodd Dewi Roberts ei adroddiad

Gwaith Cyfalaf 2016 – 2018

Gwaith llwybrau yng nghefn y Cwm – bagiau wedi eu hedfan i fyny hefo hofrennydd, rhannau helaeth o lwybrau wedi eu trwsio. Y traeniau wedi eu clirio o gerrig a chyffordd y llwybr rhwng cylchdaith ucha'r Cwm a llwybr y Twll Du wedi ei drwsio.

Gwaith Cyfalaf 2017 – 2018

Bydd gwaith y llwybrau yng nghefn y cwm yn parhau ynghyd â gwaith trwsio'r grisiau ar y ffordd at graig Idwal a bydd pont yn cael ei gosod dros Nant Efan

Bugeilio

Bydd y bugeilio yn parhau eleni gan ddefnyddio'r un bugeiliaid a'r llynedd sef Hefin Hughes, Gwyn Thomas ac Ioan Doyle.

Gwaith Cadwraeth

Mewn partneriaeth â Phrifysgol John Moores, Lerpwl a Phrifysgolion Bangor ac Aberystwyth mae'n fwriad i edrych i'r posibilrwydd i gael prosiect fydd yn monitro effaith newid hinsawdd ar gynefinoedd prin megis rhostir y mynydd. Bydd hyn yn golygu gosod cewyll sgwâr mewn amryw o leoliadau yn y Cwm.

Fis Medi bydd disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn gwneud gwaith gwirfoddol cadwriaethol yn y Cwm fel rhan o wobr John Muir.

Traffig

Ar ddydd Sadwrn y Pasg roedd Asiantaeth Priffyrdd a Heddlu Gogledd Cymru wedi gosod 'cones' ar hyd ochr y ffordd er mwyn atal ceir rhag parcio ar ochr y ffordd. Roedd hyn fel ymateb i alwad 101 oedd yn cwyno am sefyllfa parcio oedd yn peryglu'r cyhoedd.

Dangoswyd copi o boster yn dangos llun o ddafad wedi ei lladd gan gi, poster wedi ei gynhyrchu ar y cyd gan yr undebau amaethyddol a'r heddlu.

Nid oedd gan neb wrthwynebiad i'r poster gael ei arddangos.

Dywedodd Emyr Williams bod y tri phartner sy'n gyfrifol am Bartneriaeth Cwm Idwal yn cyfarfod yn y dyfodol agos er mwyn cael cytundeb ar ddatblygiadau ar ffordd ymlaen dros y 5 mlynedd nesaf. Gofynnodd i aelodau'r Fforwm os oedd ganddynt unrhyw negeseuon y byddent yn hoffi iddo ef eu cyfleu i'r bartneriaeth.

- Dywedodd Arwel Johnson y byddai'n hoffi gweld y bartneriaeth yn rhoi mwy o bwyslais ar reolaeth – dywedodd bod rhai pobl sydd yn dod i'r ardal yn meddwl y cant wneud fel y mynnent.
- Roedd Edwina Johnson o'r farn y dylid cael mwy o bresenoldeb staff ar y safle. Dywedodd bod pobl yn dod yno ac yn dod i ofyn iddynt hwy am

wybodaeth. Atebodd Emyr Williams ei bod yn anodd cael y balans rhwng cael presenoldeb ar y safle a rhaglen waith y Wardeiniaid.

- Dywedodd Andy Harbach y byddai ef ar ran Clwb Achub Mynydd Ogwen yn hoffi gweld neges glir yn cael ei rhoi ynghylch mynydda diogel.

Atebodd Emyr Williams bod hyn yn cyd-fynd a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol sef addysgu pobl am rinweddau arbennig y Parc a sicrhau eu bod yn mynd adref yn ddiogel.

Awgrymodd Gwyn Thomas na ddylai fod yn gyfrifoldeb i'r Parc i hyrwyddo mynydda diogel - bod y gynulleidfa yn newid yn gyson ar neges yn gorfod cael ei hail adrodd dro ar ôl tro. Dywedodd Arwel Johnson bod yr ymwelwyr â Chwm Idwal wedi newid dros y blynyddoedd a bellach pobl gyffredin yn hytrach na mynyddwyr sydd yma ac nad ydynt yn ymwybodol o faterion cefn gwlad.

4. Sefyllfa gyffredol ar y safle – Edward Jones

- Mae ffigyrau sy'n defnyddio'r maes parcio wedi cynyddu 27% eleni - hyn yn wir am weddill y parc hefyd, credai bod hyn oherwydd y marchnata diweddar gan gynnwys y fwyddyn EPIC y llynedd.
- Mae diffygion wedi bod yng ngwasanaeth y contractors sy'n glanhau'r adeilad oherwydd newid yn y staff.
- Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd tanciau dwr yn cael eu gosod, fe ddylai hyn wella'r pwysedd dŵr a'r problemau cysylltiedig.
- Bydd y ddesg wag yn swyddfa Guto yn cael ei gosod yn y dyfodol agos - felly os oedd aelodau'r Fforwm yn gwybod am unrhyw un oedd â diddordeb - fe fyddai'n ddiolchgar pe byddent yn cysylltu gydag ef.
- Y traeniau wedi blocio pnawn yma - mae contractwr ar ei ffordd i wagio'r tanc.
- Mae'r niferoedd sy'n talu gyda cherdyn i barcio wedi cynyddu yn gyson. Y bwriad yw newid i system talu gyda cherdyn yn unig dros y blynyddoedd nesaf.

Gofynnodd Gwyn Thomas sut oedd yr arian parcio yn cael ei wario. Atebwyd ei fod yn mynd ar wella llwybrau a gwaith cynnal a chadw. Ychwanegodd Emyr Williams fod yr arian sy'n cael ei gasglu yn ardal yr Wyddfa yn mynd i dalu am waith llwybrau neu gyfrannu ar wasanaeth y bws Sherpa.

5. Dehongli ar y safle – Naomi Jones

- Mae'r cwmni wnaeth edrych ar y model 3D wedi gwneud argymhellion ar beth ellir ei wneud er mwyn ateb yr amryw broblemau sydd wedi bodoli gyda fo, gan gynnwys problemau gyda'r taflunydd. Bydd y model ei hun yn aros ond ni fydd yn gweithio'n rhagweithiol bellach.
- Does dîm adborth negyddol wedi ei dderbyn ynghylch y dehongli yn yr adeilad yn ddiweddar.
- Mae'r ffilm 'Up on High' gan Rob Johnson wedi cael ei gosod .
Dyweddodd Arwel Johnson bod y ffilm yn boblogaidd a gofynnodd a oedd modd cael copi o'r ffilm er mwyn gallu ei gwerthu.

Dyweddodd Naomi y byddai'n gwneud ymholiadau.

6. Diweddariad Bwthyn Ogwen

- Yn absenoldeb Dewi Davies - rhoddodd Dewi Roberts ddiweddariad ar Fwthyn Ogwen Penodwyd 3 geidwad tymhorol yn ddiweddar byddant yn sicrhau presenoldeb yn yr ardal rhwng wyth a chwech o'r gloch, saith niwrnod yr wythnos
- Mae Outward Bound wedi cael tymor llwyddiannus hyn yn hyn.
- Mae'r cafffi bellach ar agor ar y penwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Bydd yr arwydd yn mynd i fyny yn y dyfodol agos.
- Bae dau aelod o staff wedi eu penodi i weithio yn y cafffi
Gwnaeth Catrin Roberts sylw, efallai bod cysylltiad rhwng y cafffi a mwy o geir yn parcio ar y ffordd.
- Bydd y tîm o weithwyr stad yn symud yn ôl i Pentre - felly'n lleihau'r pwysau parcio rhywfaint.

Cytunwyd bod yr ardal i gyd dan bwysau yn ystod yr amseroedd prysur.

7. Diweddariad ar gynllun Treftadaeth y Loteri - y Carneddau – John

Roberts

Esboniodd John Roberts ei fod ef wedi cael secondiad o'i waith fel Archeolegydd Awdurdod y Parc i ddatblygu'r cynllun dros y ddwy flynedd nesaf, gan roi mwy o gig ar yr asgwrn y cais cychwynol. Cafodd Lois Jones, arferai weithio yn y Storiell ym Mangor hefyd wedi cael ei phenodi yn rhan amser i gynorthwyo'r dasg.

Mae'r cyfnod datblygu yn ymestyn rhwng Mawrth 2017 a Mawrth 2019. Bydd y cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Gronfa Treftadaeth bryd hynny, gyda'r cyfnod cyflawni yn digwydd rhwng Mehefin 2019 a Mai 2024.

Rhannodd daflenni i aelodau'r Fforwm gyda gwybodaeth manwl am y cynllun.

Prif nod y cynllun fydd i warchod a chael gwell rheolaeth o'r Carneddau drwy -

- Datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol y Carneddau, drwy gynyddu dealltwriaeth o hanes hynafol ac ecoleg yr ucheldiroedd bregus hyn, ar draws ystod eang o gymunedau, unigolion a sefydliadau
- Gwarchod a chynnal treftadaeth yr ucheldir, gan ddangos arferion rheoli tir cynaliadwy sy'n gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau prin, olion archeolegol sy'n bwysig yn rhyngwladol, a chymdeithasau a thraddodiadau'r mynyddoedd uchel a'r diwylliant sydd dan fygythiad.
- Ymgysylltu gydag ystod eang o bobl ynghylch y Carneddau drwy gyfrwng digwyddiadau, dehongli newydd a mentrau addysg, wrth gadw niferoedd cyffredinol yr ymwelwyr yn sefydlog. Bydd partneriaeth yn cael ei chreu bydd yn dod a gwahanol gyrff i weithio gyda'i gilydd. Bydd llwyddiant yn y gwaith yn ddibynnol ar gydweithrediad ac ewyllys da'r tir feddianwyr - ni fydd yn orfodol i dir feddianwyr ddod yn rhan o'r cynllun.

Ychwanegodd Emyr Williams y gallai gynlluniau o'r math yma fod yn ddull o gyflawni yn sgil gadael Ewrop.

8. Unrhyw fusnes arall

- Dywedodd Arwel Johnson fod y bws Sherpa wedi ail gychwyn ar y penwythnosau ond nad oedd defnydd helaeth ohono. Dywedodd fod mwy o waith marchnata i'w wneud.
- Mae cais wedi ei dderbyn gan y Swyddfa Gartref am hawl i osod mast yn yr ardal. Mae'r cais am gwmpawd sylweddol – 10 x 10 medr a 30m o uchder. Dywedodd Edward Jones ei bod yn ymddangos mai ymarfer desg yw hwn ar hyn o bryd ac y bydd angen gofal mawr a meddwl wrth ei osod er mwyn sicrhau nad yw'n amharu ar welediad hardd yr ardal. EE sy'n

cael y contract i redeg y gwasanaeth – roedd rhai o aelodau'r Fforwm yn synnu mai un cwmni yn unig oedd yn cael yr hawl.

- Dywedodd Catrin Roberts, yn ôl ei phrofiad hi bod y cwmnïau yn ddigon anodd i gyd -weithio â hwy.
- Holodd Arwel Johnson be oedd hanes y tan ddaearu ceblau trydan- bod yr holl beth wedi mynd yn ddistaw yn ddiweddar. **Addawodd Emyr Williams i wneud ymholiadau.** Dywedodd fod personél o fewn y cwmni wedi newid yn ddiweddar a'i bod yn anos cael gafael arnynt.
- Holodd Gwyn Thomas os oedd unrhyw ddatblygiad wedi digwydd parthed symud y gridiau gwartheg oedd ynghlwm a datblygu lôn las Ogwen. **Addawodd Carys Dafydd holi Cyngor Gwynedd pan fydd yn son am y manau pasio ar yr hen ffordd.**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 6.00y.h